OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 2629

## Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006

## RHAN 4

CYNLLUNIAU GWEITHREDU

PENNOD 3

CYNLLUNIAU GWEITHREDU – PRIF FEYSYDD AWYR

**Dyletswydd i lunio, adolygu a diwygio cynlluniau gweithredu**

**19.**—(1) Rhaid i'r awdurdod cymwys heb fod yn hwyrach na 30 Ebrill 2008—

(a) llunio cynllun gweithredu ar gyfer lleoedd yn agos i'r brif faes awyr; a

(b) cyflwyno'r cynllun gweithredu hwnnw i'r Cynulliad.

(2) Dim ond os nad oedd hi'n ofynnol i'r awdurdod cymwys lunio cynllun gweithredu ar gyfer y prif faes awyr yn unol â pharagraff (1) oherwydd nad ef oedd yr awdurdod cymwys ar 30 Ebrill 2008 neu cyn hynny y mae paragraff (3) yn gymwys.

(3) Rhaid i'r awdurdod cymwys heb fod yn hwyrach na 30 Ebrill 2013—

(a) llunio cynllun gweithredu ar gyfer lleoedd yn agos i'r prif faes awyr; a

(b) cyflwyno'r cynllun gweithredu hwnnw i'r Cynulliad.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys—

(a) pa bryd bynnag y bydd prif ddatblygiad yn digwydd ac yn effeithio ar y sefyllfa bresennol o ran sŵn; a

(b) o leiaf bob pum mlynedd ar ôl y dyddiad y mabwysiedir cynllun gweithredu yn unol â rheoliad 24.

(5) Rhaid i'r awdurdod cymwys—

(a) adolygu; a

(b) diwygio, os bydd angen,

y cynllun gweithredu.

(6) Rhaid cyflwyno i'r Cynulliad gynllun gweithredu wedi'i ddiwygio'n unol â pharagraff (5)(b) a hynny o fewn tri diwrnod gwaith i'w ddiwygio.